Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
43/2026
DYDDIAD CYHOEDDI:
11/03/2026

# Arolwg canfyddiadau a chamau gweithredu newid hinsawdd: adroddiad cymharu'r cam 4

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-213-2

Arolwg canfyddiadau a chamau gweithredu newid hinsawdd: adroddiad cymharu'r cam 4

Awdur: Colin Wright

Adroddiad Ymchwil Llawn: Wright, C (2026). *Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd: Adroddiad cymharu camau 3 a 4.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 43/2026.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/arolwg-canfyddiadau-chamau-gweithredu-newid-hinsawdd-cam-3-4

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Louisa Smith

Is-adran: Y Tîm Ymchwil i'r Hinsawdd ac i'r Amgylchedd

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: YmchwilHinsawddacAmgylchedd@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr ffigurau ..... 2

1. Cyflwyniad ..... 4

Dylunriad yr holiadur ..... 4

Gwaith maes ..... 4

Nodweddion y sampl ..... 5

Strwythur yr adroddiad ..... 5

2. Cymhariaeth ar draws camau 1 i 4 ..... 6

Beth sy’n achosi newid hinsawdd? ..... 6

A yw newid hinsawdd yn broblem ar hyn o bryd? ..... 7

Gofid am newid hinsawdd ..... 8

Cyfrifoldeb personol am atal newid hinsawdd rhag gwaethygu ..... 9

Gweithredoedd personol i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu ..... 9

Lleihau defnydd o ynni yn y cartref ..... 10

Effeithlonrwydd ynni i gadw eich cartref yn gynnes ..... 13

Mesurau effeithlonrwydd ynni ..... 15

Newidiadau i ddeiet ..... 17

Siopa am fwyd a choginio prydau ..... 19

Ymddygiadau bywyd bob dydd ..... 21

Ymddygiadau teithio ..... 23

3. Casgliad ..... 26

Myfyrdodau ac ystyriaeth ar gyfer dehongli’r allbynnau ..... 27

**Rhestr ffigurau**


Ffigur 2.1 – Ymateb i - ‘Beth ydych chi’n ei gredu sy’n achosi newid hinsawdd?’ ..................6
Ffigur 2.2 – Ymateb i - ‘I ba raddau ydych chi’n meddwl bod newid hinsawdd yn broblem ar hyn o bryd?’.........................................................................................................7
Ffigur 2.3 – Ymateb i - ‘Pa mor ofidus ydych chi’n bersonol am newid hinsawdd?’ ...............8
Ffigur 2.5 – Ymateb i - ‘I ba raddau ydych chi’n teimlo y gall eich gweithredoedd personol eich hun helpu i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?’........................................10
Ffigur 2.6 – Ymateb i – ‘A ydych chi wedi cymryd unrhyw rai o’r camau canlynol i leihau eich defnydd o ynni? ..................................................................................... 11
Ffigur 2.7 – Ymateb i – ‘Pa rai o’r canlynol (nifer y camau a gymerwyd i leihau defnydd o ynni yn y cartref), os o gwbl, wnaethoch chi ddechrau eu cymryd yn y 12 mis diwethaf?’ ..............................................................................................12
Ffigur 2.8 – Ymateb i – ‘A oes gan eich cartref unrhyw rai o’r mesurau effeithlonrwydd ynni canlynol i helpu i gadw eich cartref yn gynnes?’ ....................................................14
Ffigur 2.9 – Ymateb i – ‘Pa rai o’r rhain (mesurau effeithlonrwydd Ynni), os o gwbl, i gadw eich cartref yn gynnes a osodwyd yn ystod y 12 mis diwethaf?’ .............................15
Ffigur 2.10 – Ymateb i – ‘Pa rai (mesurau effeithlonrwydd ynni eraill), os o gwbl, sydd gennych chi yn eich cartref?........................................................................16
Ffigur 2.11 – Ymateb i – ‘Pan rai o’r rhain (mesurau effeithlonrwydd ynni eraill), os o gwbl, a osodwyd gyntaf yn y 12 mis diwethaf?’ ..................................................................17
Ffigur 2.12 – Ymateb i – ‘A ydych chi wedi gwneud unrhyw rai o’r newidiadau canlynol i’ch deiet?’.............................................................................................................18
Ffigur 2.13 – Ymateb i – ‘Pa rai o’r rhain (newidiadau i’ch deiet), os o gwbl, wnaethoch chi ddechrau eu gwneud yn y 12 mis diwethaf?’.........................................................19
Ffigur 2.14 – Ymateb i – ‘A ydych chi’n gwneud unrhyw rai o’r canlynol wrth siopa am fwyd neu goginio prydau?’ ..............................................................................20
Ffigur 2.15 – Ymateb i – ‘Pa rai o’r rhain (ymddygiadau cynaliadwy wrth siopa am fwyd), os o gwbl, wnaethoch chi ddechrau eu gwneud yn ystod y 12 mis diwethaf?’ .............21
Ffigur 2.16 – Ymateb i – ‘A ydych chi’n gwneud unrhyw rai o’r canlynol (ymddygiadau bywyd bob dydd)?’ ..............................................................................................22
Ffigur 2.17 – Ymateb i – ‘Pa rai o’r rhain (ymddygiadau bywyd bob dydd), os o gwbl wnaethoch chi ddechrau eu gwneud yn y 12 mis diwethaf?’...................................23
Ffigur 2.18 – Ymatebion i – ‘A ydych chi’n gwneud unrhyw rai o’r canlynol wrth deithio o le i le?’...............................................................................................................24

Ffigur 2.19 – Ymateb i – ‘Pa rai o’r rhain (ymddygiadau teithio), os o gwbl, wnaethoch chi ddechrau eu gwneud yn y 12 mis diwethaf? ..........................................................25

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion yr allbynnau o'r 4 cyntaf o 6 cham yr arolwg meintiol Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd o aelwydydd yng Nghymru. Comisiynwyd yr arolwg gan Lywodraeth Cymru i ddeall agweddau ac ymddygiadau pobl yng Nghymru yn ymwneud â lleihau allyriadau carbon. Bydd y gwaith ymchwil hwn yn cyfrannu at ddull Llywodraeth Cymru o newid ymddygiad a chymdeithas ac yn hysbysu datblygiad a phenderfyniadau polisi yn y dyfodol o ran datgarboneiddio.

1.2 Bydd nodau'r ymchwil yn cael eu bodloni trwy ymchwil gynradd gydag aelodau'r cyhoedd yng Nghymru dros chwe cham chwe-misol, â tharged o 1,000 o ymatebion fesul cam.

1.3 Mae Adroddiad Allbynnau Arolwg Cam 1 yn cynnig mwy o fanylion am y cefndir i'r arolwg.

**Dyluniad yr holiadur**

1.4 Datblygwyd yr holiadur gan WSP, Accent a Llywodraeth Cymru ac mae ar gael i'w ddarllen fel atodiad.

1.5 Dyluniwyd yr holiadur i ganiatáu i agweddau ac ymddygiadau gael eu tracio yng nghamau'r dyfodol ac fe'i strwythurwyd i gwmpasu'r chwe maes canlynol:

- Nodweddion aelwydydd
- Canfyddiadau ac agweddau
- Ynni cartref
- Bwyd
- Bywyd dyddiol
- Teithio.

**Gwaith maes**

1.6 Gwnaed y gwaith maes ar gyfer pob cam ar y dyddiadau canlynol:

- Cam 1 – Awst a Medi 2023
- Cam 2 – Chwefror a Mawrth 2024
- Cam 3 – Awst a Medi 2024
- Cam 4 – Chwefror a Mawrth 2025

1.7 Roedd nifer yr arolygon a gwblhawyd ym mhob cam yn amrywio o 939 (cam 3) i 1,001 (cam 4).

## Nodweddion y sampl

1.8 Cymharwyd nodweddion demograffig y sampl gyda setiau data ar gyfer Cymru, e.e. Cyfrifiad 2021, i sicrhau bod y sampl yn gynrychiadol o'r boblogaeth ehangach. Roedd cwestiynau demograffig yn cwmpasu oedran, rhywedd, ethnigrwydd, lleoliad, statws gwaith, galwedigaeth, incwm aelwyd, math o eiddo, a deiliadaeth.

1.9 Mae cymariaethau yn dynodi bod y sampl yn gyffredinol gynrychiadol o boblogaeth Cymru.

1.10 Mae Adroddiad Methodoleg Camau 3 a 4 yn cynnig rhagor o fanylion am ddyluniad yr arolwg, gan gynnwys cymhariaeth o nodweddion demograffig sampl yr arolwg yn erbyn data Cyfrifiad 2021 a setiau data cenedlaethol.

## Strwythur yr adroddiad

1.11 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno allbynnau arddull tracio rhwng y pedwar cam ar gyfer ymatebion i ganfyddiadau ac agweddau ac camau gweithredu cynaliadwy.

1.12 Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn.

- Adran 2 – Cymhariaeth rhwng yr holl gamau, o gam 1 i gam 4
- Adran 3 – Casgliad

## 2. Cymhariaeth ar draws camau 1 i 4

2.1 Mae'r adran hon yn cynnig cymhariaeth arddull tracio rhwng y pedwar cam ar gyfer ymatebion i ganfyddiadau ac agweddau ac camau gweithredu cynaliadwy.


2.2 Cynhaliwyd profion arwyddocâd ar gyfer gwahaniaethau rhwng camau data gan ddefnyddio prawf dwy gynffon, yn seiliedig ar gyfran yr ymatebwyr i bob categori ym mhob cam. Profir pob cam yn erbyn y cam blaenorol, h.y. cam 2 yn erbyn cam 1, cam 3 yn erbyn cam 2, cam 4 yn erbyn cam 3. Cynhaliwyd y profion arwyddocâd ar lefel hyder o 95%. Defnyddiwyd maint y sylfaen a chanrannau wedi'u talgrynnu o ymateb pob categori fel y gwerthoedd mewnbwn ar gyfer y profion arwyddocâd traws-gam.

2.3 Lle mae canlyniad yn wahanol iawn i'r cam blaenorol, bydd y label data ar y siart yn cael ei farcio mewn testun trwm gyda border.

### Beth sy'n achosi newid hinsawdd?

2.4 Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth yr oeddent yn ei gredu oedd achos newid hinsawdd. Yng ngham 4, dywedodd 56% o'r ymatebwyr bod newid hinsawdd yn cael ei achosi'n bennaf neu'n gyfan gwbl gan weithgareddau dynol, o'i gymharu â 64% yng ngham 3, 62% yng ngham 2 a 61% yng ngham 1 (Ffigur 2.1).

**Ffigur 2.1 – Ymateb i - 'Beth ydych chi'n ei gredu sy'n achosi newid hinsawdd?'**



Disgrifiad o Ffigur 2.1: siart far bentwr yn dangos yr hyn yr oedd yr ymatebwyr yn ei gredu oedd yn achosi newid hinsawdd.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Camau 1, 2, 3 a 4 2023 i 2025. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys. Sylfaen C4 = 958, C3 = 902, C2 = 905, C1 = 916

Newidiadau ystadegol arwyddocaol o'r cam blaenorol wedi'u marcio mewn testun trwm gyda border.


Rhwng camau 3 a 4, amlygir sawl newid ystadegol arwyddocaol yn y siart:

- Adroddwyd cynnydd o 2 bwynt canran ymhlith ymatebion a atebodd 'Trwy brosesau naturiol yn gyfan gwbl' (Cam 3: 4%, cam 4: 6%).
- Gostyngiad o 5 pwynt canran i'r rhai a atebodd 'Trwy weithgarwch dynol yn bennaf (ond mae prosesau naturiol yn cyfrannu hefyd) (Cam 3: 48%, cam 4: 43%)
- Gostyngiad o 3 phwynt canran i'r rhai a atebodd 'Trwy weithgarwch dynol yn gyfan gwbl' (Cam 3: 16%, cam 4 13%).

## A yw newid hinsawdd yn broblem ar hyn o bryd?

2.5 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn meddwl bod newid hinsawdd yn broblem ar hyn o bryd, â'r ymatebion yn amrywio o 1 'ddim yn broblem ddifrifol o gwbl' i 10 'problem eithriadol o ddifrifol'. Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd bod newid hinsawdd yn broblem eithriadol o ddifrifol yn is yng ngham 4 nag mewn camau eraill. Yng ngham 4, dywedodd 32% o'r ymatebwyr bod newid hinsawdd yn broblem eithriadol o ddifrifol, o'i gymharu â 36% yng ngham 3, 40% yng ngham 2 a 43% yng ngham 1 (Ffigur 2.2). Fodd bynnag, roedd ymatebion uwch na 5 yn debyg ar draws pob cam, cam 4 78%, cam 3 78%, cam 2 76% a cham 1 79%.

**Ffigur 2.2 – Ymateb i - 'I ba raddau ydych chi'n meddwl bod newid hinsawdd yn broblem ar hyn o bryd?'**




Disgrifiad o Ffigur 2.2: siart far bentwr yn dangos i ba raddau roedd ymatebwyr yn meddwl bod newid hinsawdd yn broblem ym mhob cam.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Camau 1, 2, 3 a 4 2023 i 2025. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys. Sylfaen C4 = 965, C3 = 912, C2 = 918, C1 = 921

Newidiadau ystadegol arwyddocaol o'r cam blaenorol wedi'u marcio mewn testun trwm gyda border.


Dyma'r newidiadau ystadegol arwyddocaol a amlygir yn y siart:

- Adroddwyd cynnydd o 5 pwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 3-5 rhwng cam 1 (12%) a cham 2 (17%).
- Adroddwyd cynnydd o 6 pwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 6-8 rhwng cam 2 (36%) a cham 3 (42%).
- Adroddwyd gostyngiad o 4 pwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 9-10 rhwng cam 3 (36%) a cham 4 (32%).

## Gofid am newid hinsawdd

2.6 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor ofidus oeddent yn bersonol am newid hinsawdd, â'r ymatebion yn amrywio o 'ddim yn ofidus o gwbl' i 'gofidus iawn'. Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn ofidus iawn am newid hinsawdd yn is yng ngham 4 nag yn y camau eraill. Yng ngham 4, dywedodd 22% o'r ymatebwyr eu bod yn ofidus iawn am newid hinsawdd, o'i gymharu â 24% yng ngham 3, 27% yng ngham 2 a 28% yng ngham 1 (Ffigur 2.3).

### Ffigur 2.3 – Ymateb i - 'Pa mor ofidus ydych chi'n bersonol am newid hinsawdd?'




Disgrifiad o Ffigur 2.3: siart far bentwr yn dangos pa mor ofidus oedd ymatebwyr am newid hinsawdd ym mhob cam.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Camau 1, 2, 3 a 4 2023 i 2025. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys. Sylfaen C4 = 954, C3 = 915, C2 = 906, C1 = 927

Newid ystadegol arwyddocaol o'r cam blaenorol wedi'i farcio mewn testun trwm gyda border.

Dyma'r newidiadau ystadegol arwyddocaol a amlygir yn y siart:


- Cynnydd o 5 pwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd, 'Yn weddol ofidus' rhwng cam 2 (39%) a cham 3 (44%).

## Cyfrifoldeb personol am atal newid hinsawdd rhag gwaethygu

2.7 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn teimlo cyfrifoldeb personol am atal newid hinsawdd rhag gwaethygu, â'r ymatebion yn amrywio o 1 'ddim o gwbl' i 10 'llawer iawn'.

2.8 Roedd yr ymatebion yn debyg rhwng camau 1 a 2, ac yn debyg rhwng camau 3 a 4. Rhwng camau 2 a 3, roedd newidiadau sylweddol i'r ymatebwyr a atebodd 1 i 2 (o 17% i 13%), 6 i 8 (o 34% i 40%), a 9 i 10 (o 29% i 24%).

**Ffigur 2.4 - Ymateb i - 'I ba raddau ydych chi'n teimlo cyfrifoldeb personol am geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?'**




Disgrifiad o **Error! Reference source not found.**: siart far bentwr yn dangos i ba raddau roedd ymatebwyr yn meddwl bod ganddynt gyfrifoldeb personol am atal newid hinsawdd rhag gwaethygu ym mhob cam

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Camau 1, 2, 3 a 4 2023 i 2025. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys. Sylfaen C4 = 972, C3 = 915, C2 = 914, C1 = 922

Newid ystadegol arwyddocaol o'r cam blaenorol wedi'i farcio mewn testun trwm gyda border.

Mae'r siart yn amlygu'r newidiadau ystadegol arwyddocaol canlynol rhwng camau 2 a 3:


- Gostyngiad o 4 pwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 1-2 (Cam 2 17%, cam 13%)
- Cynnydd o 6 pwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 6-8 (Cam 2 34%, cam 3 40%)
- Gostyngiad o 5 pwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 9-10 (Cam 2 29%, cam 3 24%)

## Gweithredoedd personol i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu

2.9 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau roeddent yn teimlo y gallai eu gweithredoedd personol atal newid hinsawdd rhag gwaethygu, â'r ymatebion yn amrywio o 1 'ddim o gwbl' i 10 'llawer iawn'. Roedd yr ymatebion yn debyg ar draws bob cam, er mai cam 4 oedd â'r gyfran fwyaf o ymatebion uwch na 5 (gan adrodd y gallai eu gweithredoedd personol atal newid hinsawdd rhag gwaethygu) ar 50%, o'i gymharu â 48% yng nghamau 1 a 2, a 45% yng ngham 3 (Ffigur 2.4).

2.10 Ar draws pob cam, roedd gwahaniaeth rhwng i ba raddau yr oedd pobl yn teimlo cyfrifoldeb personol am geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu, ac i ba raddau yr oedd pobl yn teimlo y gallai eu gweithredoedd personol eu hunain helpu i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu.

**Ffigur 2.4 – Ymateb i - 'I ba raddau ydych chi'n teimlo y gall eich gweithredoedd personol eich hun helpu i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?'**




Disgrifiad o Gweithredoedd personol i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu

2.11 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau roeddent yn teimlo y gallai eu gweithredoedd personol atal newid hinsawdd rhag gwaethygu, â'r ymatebion yn amrywio o 1 'ddim o gwbl' i 10 'llawer iawn'. Roedd yr ymatebion yn debyg ar draws bob cam, er mai cam 4 oedd â'r gyfran fwyaf o ymatebion uwch na 5 (gan adrodd y gallai eu gweithredoedd personol atal newid hinsawdd rhag gwaethygu) ar 50%, o'i gymharu â 48% yng nghamau 1 a 2, a 45% yng ngham 3 (Ffigur 2.4).

2.12 Ar draws pob cam, roedd gwahaniaeth rhwng i ba raddau yr oedd pobl yn teimlo cyfrifoldeb personol am geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu, ac i ba raddau yr oedd pobl yn teimlo y gallai eu gweithredoedd personol eu hunain helpu i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu.

Ffigur 2.4: siart far bentwr yn dangos i ba raddau roedd ymatebwyr yn meddwl y gallai eu gweithredoedd personol eu hunain helpu i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu ym mhob cam.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Camau 1, 2, 3 a 4 2023 i 2025. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys. Sylfaen C4 = 968, C3 = 908, C2 = 907, C1 = 924

Newid ystadegol arwyddocaol o'r cam blaenorol wedi'i farcio mewn testun trwm gyda border.

Dyma'r newidiadau ystadegol arwyddocaol a amlygir yn y siart:


- Cynnydd o 5 pwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 3-5 rhwng cam 2 (29%) a cham 3 (34%)
- Gostyngiad o 7 pwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 3-5 rhwng cam 3 (34%) a cham 4 (27%)

## Lleihau defnydd o ynni yn y cartref

2.13 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa un a oeddent wedi cymryd nifer o gamau i leihau eu defnydd o ynni ar yr aelwyd. Roedd cyfanswm o 14 o gamau:

- Gostwng y thermostat (h.y. y tymheredd y mae'r tŷ wedi'i wresogi iddo ar ddiwrnodau oer)
- Gwisgo dillad cynhesach
- Gostwng tymheredd llif y boeler
- Gostwng gosodiadau rheiddiaduron
- Gostwng tymheredd y dŵr poeth
- Diffodd yr opsiwn cynhesu ymlaen llaw ar foeler combi
- Sychu dillad yn yr awyr agored neu ar ffrâm sychu dillad
- Awyru neu gysgodi'r cartref yn ystod tywydd cynhesach (e.e. cau llenni a bleinds i atal golau haul uniongyrchol, agor ffenestri gyda'r nos i adael aer oerach i mewn)
- Cadw rheiddiaduron yn glir i ganiatáu i wres ledaenu'n gyflymach (e.e. trwy beidio â sychu dillad ar y rheiddiadur)
- Agor llenni i ganiatáu i olau haul gynhesu'r tŷ
- Diffodd goleuadau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio
- Tynnu plygiau dyfeisiau allan pan nad ydynt yn cael eu defnyddio
- Defnyddio llai o ddŵr poeth (e.e. trwy dreulio llai o amser yn y gawod)
- Aros tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn i roi'r gwres ymlaen

**Ffigur 2.5 – Ymateb i – ‘A ydych chi wedi cymryd unrhyw rai o’r camau canlynol i leihau eich defnydd o ynni?**




Disgrifiad o Ffigur 2.5: siart far bentwr yn dangos nifer y camau a gymerwyd gan ymatebwyr i leihau defnydd o ynni yn y cartref ym mhob cam.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Camau 1, 2, 3 a 4 2023 i 2025. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Byddai’n well gen i beidio â dweud’ heb eu cynnwys. Sylfaen C4 = 1001, C3 = 939, C2 = 943, C1 = 949


Newid ystadegol arwyddocaol o’r cam blaenorol wedi’i farcio mewn testun trwm gyda border.

Dyma’r newidiadau ystadegol arwyddocaol a amlygir yn y siart:

- Cynnydd o 6 pwynt canran i’r ymatebwyr a atebodd 1-3 rhwng cam 2 (11%) a cham 3 (17%) a gostyngiad o 4% rhwng cam 3 (17%) a cham 4 (13%)
- *Cynnydd o 7 pwynt canran i’r ymatebwyr a atebodd 4-6 rhwng cam 1 (16%) a cham 2 (23%) a chynnydd o 6% rhwng cam 3 (22%) a cham 4 (28%)*
- Gostyngiad o 4 pwynt canran i’r ymatebwyr a atebodd 10-12 rhwng cam 1 (28%) a cham 2 (24%)
- Gostyngiad o 4 pwynt canran i’r ymatebwyr a atebodd 13-14 rhwng cam 1 (13%) a cham 2 (9%)

2.14 O’r camau y gwnaethon nhw ddweud eu bod yn eu cymryd, gofynnwyd i’r ymatebwyr ddynodi pa rai o’r rhain yr oeddent wedi dechrau eu cymryd yn ystod y 12 mis diwethaf. 66% yng ngham 1, 61% yng ngham 2, 50% yng ngham 3, a 55% yng ngham 4 oedd nifer yr ymatebwyr a ddechreuodd gymryd o leiaf un cam yn y 12 mis diwethaf (Ffigur 2.6). Yng ngham 1, roedd pob ymatebwr wedi dechrau cyfartaledd o 3.6 o gamau yn y 12 mis diwethaf. Roedd hyn yn is yng ngham 2 (cyfartaledd o 2.9), cam 3 (cyfartaledd o 2.3) a cham 4 (cyfartaledd o 2.4).

**Ffigur 2.6 – Ymateb i – ‘Pa rai o’r canlynol (nifer y camau a gymerwyd i leihau defnydd o ynni yn y cartref), os o gwbl, wnaethoch chi ddechrau eu cymryd yn y 12 mis diwethaf?’**




Disgrifiad o Ffigur 2.6: siart far bentwr yn dangos nifer y camau a ddechreuwyd gan ymatebwyr yn y 12 mis diwethaf i leihau defnydd o ynni yn y cartref ym mhob cam.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Camau 1, 2, 3 a 4 2023 i 2025. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Byddai’n well gen i beidio â dweud’ heb eu cynnwys. Sylfaen C4 = 1001, C3 = 939, C2 = 943, C1 = 949

Newid ystadegol arwyddocaol o’r cam blaenorol wedi’i farcio mewn testun trwm gyda border.

Dyma’r newidiadau ystadegol arwyddocaol a amlygir yn y siart:

- Cynnydd o 5 pwynt canran i’r ymatebwyr a atebodd 0 rhwng cam 1 (34%) a cham 2 (39%), a chynnydd o 11% rhwng cam 2 a cham 3 (50%) a gostyngiad o 5% rhwng cam 3 a cham 4 (45%)
- Gostyngiad o 6 pwynt canran i’r ymatebwyr a atebodd 1-3 rhwng cam 2 (30%) a cham 3 (24%) a chynnydd o 5% rhwng cam 3 a cham 4 (29%).
- Gostyngiad o 3 phwynt canran i’r ymatebwyr a atebodd 4-6 rhwng cam 2 (15%) a cham 3 (12%)
- Gostyngiad o 3 phwynt canran i’r ymatebwyr a atebodd 7-9 rhwng cam 1 (10%) a cham 2 (7%)

2.15 Cymharwyd nifer y camau yr oedd pob ymatebwr yn dweud ei fod yn ei gymryd ar draws y camau. 41% yng ngham 1, 33% yng ngham 2, 31% yng ngham 3 a 26% yng ngham 4 oedd nifer yr ymatebwyr a oedd yn cymryd 10 neu fwy o gamau (Ffigur 2.57). Yng ngham 1, roedd pob ymatebwr yn cymryd cyfartaledd o 7.9 o gamau i leihau eu defnydd o ynni ar yr aelwyd. Roedd hyn yn is yng ngham 2 (cyfartaledd o 7.3), cam 3 (cyfartaledd o 7.0), a cham 4 (cyfartaledd o 6.9).


### Effeithlonrwydd ynni i gadw eich cartref yn gynnes

2.16 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd ganddynt unrhyw rai o'r 8 o fesurau effeithlonrwydd ynni wedi'u gosod i gadw eu cartref yn gynnes. Dyma nhw:

- Insiwleiddio wal geudod
- Ffenestri gwydr dwbl neu driphlyg
- Insiwleiddio atig neu do
- Atal drafftiau
- Insiwleiddio lloriau
- Insiwleiddio wal allanol
- Insiwleiddio pibellau dŵr poeth
- Paneli solar

2.17 Roedd yr ymatebion ar gyfer camau 1 i 3 yn debyg iawn. Roedd cyfran fwy o ymatebwyr a dim mesurau (21%) a chyfran is â 3 i 4 o fesurau (32%) yng Ngham 4 nag yn y camau eraill. (Ffigur 2.7).

**Ffigur 2.7 – Ymateb i – 'A oes gan eich cartref unrhyw rai o'r mesurau effeithlonrwydd ynni canlynol i helpu i gadw eich cartref yn gynnes?'**




Disgrifiad o Ffigur 2.7: siart far bentwr yn dangos nifer y mesurau effeithlonrwydd ynni a gymerwyd gan ymatebwyr i leihau defnydd o ynni yn y cartref ym mhob cam.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Camau 1, 2, 3 a 4 2023 i 2025. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys. Sylfaen C4 = 1001, C3 = 939, C2 = 943, C1 = 949


Newid ystadegol arwyddocaol o'r cam blaenorol wedi'i farcio mewn testun trwm gyda border.

Dyma'r newidiadau ystadegol arwyddocaol a amlygir yn y siart:

- Cynnydd o 9 pwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 0 rhwng cam 3 (12%) a cham 4 (21%)
- Gostyngiad o 5 pwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 3-4 rhwng cam 3 (37%) a cham 4 (32%)

2.18 O'r mesurau effeithlonrwydd ynni y gwnaethon nhw ddweud yr oeddent yn eu defnyddio, gofynnwyd i'r ymatebwyr ddynodi pa rai o'r rhain oedd wedi cael eu gosod yn y 12 mis diwethaf. Ym mhob cam, nid oedd dros 80% o ymatebwyr wedi gosod mesur effeithlonrwydd ynni yn y 12 mis diwethaf (Ffigur 2.9).

**Ffigur 2.8 – Ymateb i – 'Pa rai o'r rhain (mesurau effeithlonrwydd Ynni), os o gwbl, i gadw eich cartref yn gynnes a osodwyd yn ystod y 12 mis diwethaf?'**




Disgrifiad o Ffigur 2.8: siart far bentwr yn dangos nifer y mesurau effeithlonrwydd ynni a osodwyd yn y 12 mis diwethaf i leihau defnydd o ynni yn y cartref ym mhob cam.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Camau 1, 2, 3 a 4 2023 i 2025. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys. Sylfaen C4 = 1001, C3 = 939, C2 = 943, C1 = 949

Newid ystadegol arwyddocaol o'r cam blaenorol wedi'i farcio mewn testun trwm gyda border.

Dyma'r newidiadau ystadegol arwyddocaol a amlygir yn y siart:

- Cynnydd o 7 pwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 0 rhwng cam 1 (81%) a cham 2 (88%)
- Gostyngiad o 5 pwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 1-2 rhwng cam 1 (16%) a cham 2 (11%)

## Mesurau effeithlonrwydd ynni


2.19 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd ganddynt unrhyw un o restr o 7 o fesurau effeithlonrwydd ynni eraill yn eu cartref. Dyma nhw:

- Switsys amseru ar oleuadau
- Goleuadau clyfar (wedi'u rheoli gan ap)
- Gwresogi clyfar (wedi'i reoli gan ap)
- Bylbiau golau sy'n arbed ynni (fel deuod allyrru golau)
- Pen cawod sy'n arbed dŵr i leihau llif

- Ffilm ffenestr solar neu wres i gadw gwres i mewn
- Synwyryddion symudiadau ar oleuadau

2.20 switsys amseru ar oleuadau, bylbiau golau sy'n arbed ynni a phennau cawodydd sy'n arbed dŵr. Roedd gan ymatebwyr i gam 1 rhyw fymryn yn fwy o fesurau na'r camau eraill. 81% yng ngham 1, 74% yng ngham 2, 73% yng ngham 3 a 72% yng ngham 4 oedd cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi mabwysiadu mwy nag 1 mesur (Ffigur 2.9).

**Ffigur 2.9 – Ymateb i – 'Pa rai (mesurau effeithlonrwydd ynni eraill), os o gwbl, sydd gennych chi yn eich cartref?**




Disgrifiad o Ffigur 2.9: siart far bentwr yn dangos nifer y mesurau effeithlonrwydd ynni yr oedd gan ymatebwyr yn y cartref ym mhob cam.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Camau 1, 2 a 3 2023 i 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys. Sylfaen C3 = 939, C2 = 943, C1 = 949

Newid ystadegol arwyddocaol o'r cam blaenorol wedi'i farcio mewn testun trwm gyda border.


Dyma'r newidiadau ystadegol arwyddocaol a amlygir yn y siart:

- Cynnydd o 7 pwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 0 rhwng cam 1 (19%) a cham 2 (26%).
- Gostyngiad o 3 phwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 3-4 rhwng cam 2 (10%) a cham 3 (7%), a chynnydd o 4% rhwng cam 3 a cham 4 (11%)
- Gostyngiad o 1 pwynt canran i'r rhai a atebodd 5-7 rhwng cam 1 (2%) a cham 2 (1%), a chynnydd o 1 pwynt canran rhwng cam 2 a cham 3 (2%)

2.21 O'r mesurau effeithlonrwydd ynni eraill y gwnaethon nhw ddweud yr oeddent yn eu defnyddio, gofynnwyd i'r ymatebwyr ddynodi pa rai o'r rhain oedd wedi cael eu gosod yn y 12 mis diwethaf. Roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi gosod o leiaf 1 mesur yn y 12 mis diwethaf yn uwch yng ngham 1 (28%) nag yng ngham 2 (21%), cam 3 (20%) a cham 4 (26%). Ni ddywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (72% i 80%)

eu bod wedi gosod unrhyw fesurau yn y 12 mis diwethaf ar draws y 4 cam (Ffigur 2.10).

**Ffigur 2.10 – Ymateb i – 'Pan rai o'r rhain (mesurau effeithlonrwydd ynni eraill), os o gwbl, a osodwyd gyntaf yn y 12 mis diwethaf?'**




Disgrifiad o Ffigur 2.10: siart far bentwr yn dangos nifer y mesurau effeithlonrwydd ynni a osodwyd gan ymatebwyr yn y 12 mis diwethaf ym mhob cam.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Camau 1, 2, 3 a 4 2023 i 2025. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys. Sylfaen C4 = 1001, C3 = 939, C2 = 943, C1 = 949

Newid ystadegol arwyddocaol o'r cam blaenorol wedi'i farcio mewn testun trwm gyda border.

Dyma'r newidiadau ystadegol arwyddocaol a amlygir yn y siart:

- Cynnydd o 7 pwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 0 rhwng cam 1 (72%) a cham 2 (79%), a gostyngiad o 6 pwynt canran rhwng cam 3 (80%) a cham 4 (74%)
- Gostyngiad o 5 pwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 1-2 rhwng cam 1 (25%) a cham 2 (20%), a chynnydd o 5 pwynt canran rhwng cam 3 (19%) a cham 4 (24%)
- Gostyngiad o 2 bwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 3-4 rhwng cam 1 (3%) a cham 2 (1%)


## Newidiadau i ddeiet

2.22 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi gwneud unrhyw rai o 5 newid i'w deiet. Dyma'r newidiadau:

- Lleihau pa mor aml rydych chi'n bwyta cynhyrchion llaeth (e.e. caws, llaeth, iogwrt, hufen)
- Lleihau pa mor am rydych chi'n bwyta cig coch (e.e. cig eidion, cig oen)
- Lleihau pa mor aml rydych chi'n bwyta cig gwyn (e.e. cyw iâr, porc)
- Lleihau pa mor aml rydych chi'n bwyta pysgod neu fwyd môr (e.e. eog, corgimwch)
- Cynyddu pa mor aml rydych chi'n bwyta ffrwythau a llysiau (ffres, wedi'u rhewi, mewn tun, wedi'u sychu neu wedi'u troi'n sudd)

2.23 Roedd yr ymatebion ar gyfer pob cam yn debyg iawn, roedd tua hanner yr ymatebwyr (49% i 53%) wedi gwneud o leiaf un o'r newidiadau i'w deiet ar draws pob cam (Ffigur 2.11).

**Ffigur 2.11 – Ymateb i – 'A ydych chi wedi gwneud unrhyw rai o'r newidiadau canlynol i'ch deiet?'**




Disgrifiad o Ffigur 2.11: siart far bentwr yn dangos nifer y newidiadau i ymatebwyr diet ym mhob cam.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Camau 1, 2, 3 a 4 2023 i 2025. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys. Sylfaen C4 = 1001, C3 = 939, C2 = 943, C1 = 949


Newid ystadegol arwyddocaol o'r cam blaenorol wedi'i farcio mewn testun trwm gyda border.

Dyma'r newidiadau ystadegol arwyddocaol a amlygir yn y siart:

- Gostyngiad o 4 pwynt canran (pp) i'r ymatebwyr a atebodd 1-2 rhwng cam 2 (31%) a cham 3 (27%), and a 6pp increase rhwng cam 3 (27%) a cham 4 (33%)
- Gostyngiad o 3pp i'r ymatebwyr a atebodd 5 rhwng cam 1 (7%) a cham 2 (4%)

2.24 O'r newidiadau i ddeiet y gwnaethon nhw ddweud yr oeddent yn eu gwneud, gofynnwyd i'r ymatebwyr ddynodi pa rai o'r rhain oedd wedi cael eu cychwyn yn y 12 mis diwethaf. Eto, roedd yr ymatebion ym mhob cam yn debyg iawn. Yng ngham 1, roedd 33% wedi gwneud o leiaf un newid i ddeiet yn y 12 mis diwethaf, o'i gymharu â 31% yng ngham 2, 30% yng ngham 3, a 33% yng ngham 4 (Ffigur 2.12).

**Ffigur 2.12 – Ymateb i – ‘Pa rai o’r rhain (newidiadau i’ch deiet), os o gwbl, wnaethoch chi ddechrau eu gwneud yn y 12 mis diwethaf?’**




Disgrifiad o Ffigur 2.12: siart far bentwr yn dangos nifer y newidiadau i ddeiet yr oedd ymatebwyr wedi eu cychwyn yn y 12 mis diwethaf ym mhob cam.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Camau 1, 2, 3 a 4 2023 i 2025. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Byddai’n well gen i beidio â dweud’ heb eu cynnwys. Sylfaen C4 = 1001, C3 = 939, C2 = 943, C1 = 949

Newid ystadegol arwyddocaol o’r cam blaenorol wedi’i farcio mewn testun trwm gyda border.

Dyma’r newidiadau ystadegol arwyddocaol a amlygir yn y siart:

- Gostyngiad o 3 phwynt canran i’r ymatebwyr a atebodd 3-4 rhwng cam 1 (7%) a cham 2 (4%)

## Siopa am fwyd a choginio prydau


2.25 Gofynnwyd i’r ymatebwyr a oeddent yn dilyn unrhyw un o’r 12 camau gweithredu cynaliadwy pan roeddent yn siopa am fwyd. Dyma’r ymddygiadau:

- Prynu bwyd a dyfwyd yn lleol yn fwriadol
- Prynu bwyd tymhorol yn fwriadol
- Prynu bwyd gan fusnesau cynaliadwy yn fwriadol
- Ailgynhesu bwyd dros ben yn hytrach na’u taflu, neu ddefnyddio bwyd dros ben mewn gwahanol bryd
- Prynu’r bwyd yr ydych yn gwybod eich bod yn mynd i’w ddefnyddio yn unig
- Mynd â rhestr pan fyddwch yn mynd i siopa am fwyd
- Gwirio beth sydd yn yr oergell neu’r rhewgell cyn i chi fynd i siopa
- Gwirio bod y bwyd yr ydych yn ei brynu wedi’i storio’n gywir i helpu iddo bara’n hirach
- Gwirio dyddiadau ‘ar ei orau cyn’ a ‘defnyddio olaf’ bwyd yr ydych yn ei brynu
- Coginio mewn swmp (e.e. coginio digon ar gyfer sawl pryd a rhewi dognau i’w bwyta’n ddiweddarach yn yr wythnos)

- Compostio gwastraff bwyd gartref
- Cynllunio prydau ymlaen llaw

2.26 (e.e. prynu cynhyrchion lleol neu dymhorol yn fwriadol) neu brydau wedi'u coginio (e.e. coginio mewn swmp, ailgynhesu bwyd dros ben, cynllunio prydau ymlaen llaw). Roedd yr ymatebion ar gyfer pob cam yn debyg yn gyffredinol; 4 i 6 oedd y nifer fwyaf cyffredin o ymddygiadau a oedd yn cael ei dilyn, a 7 i 9 ym mhob cam â thraean o ymatebwyr ar gyfer pob categori yn fras (Ffigur 2.13).

**Ffigur 2.13 – Ymateb i – 'A ydych chi'n gwneud unrhyw rai o'r canlynol wrth siopa am fwyd neu goginio prydau?'**




Disgrifiad o Ffigur 2.13: siart far bentwr yn dangos nifer yr camau gweithredu cynaliadwy yr oedd ymatebwyr yn eu dilyn wrth siopa am fwyd a choginio prydau ym mhob cam.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Camau 1, 2, 3 a 4 2023 i 2025. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys. Sylfaen C4 = 1001, C3 = 939, C2 = 943, C1 = 949

Newid ystadegol arwyddocaol o'r cam blaenorol wedi'i farcio mewn testun trwm gyda border.


Dyma'r newidiadau ystadegol arwyddocaol a amlygir yn y siart:

- *Cynnydd o 6 phwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 1-3 rhwng cam 2 (19%) a cham 3 (25%), a gostyngiad o 6 phwynt canran rhwng cam 3 (25%) a cham 4 (19%)*
- Cynnydd o 5 pwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 4-6 rhwng cam 3 (30%) a cham 4 (35%)

2.27 O'r camau gweithredu cynaliadwy y dywedodd yr ymatebwyr yr oeddent yn eu dilyn wrth siopa am fwyd neu goginio prydau, gofynnwyd i'r ymatebwyr ddynodi pa rai o'r rhain oedd wedi cael eu cychwyn yn y 12 mis diwethaf. Roedd yr ymatebion ar gyfer camau 1 a 4 yn debyg yn gyffredinol, ac felly hefyd yr ymatebion ar gyfer camau 2 a 3. Rhwng camau 3 a 4, roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi mabwysiadu dim

mesurau yn ddiweddar yn gostwng o 72% i 67%, tra bod y nifer a oedd wedi mabwysiadu 1 i 3 mesur yn cynyddu o 20% i 24% (Ffigur 2.15).

**Ffigur 2.14 – Ymateb i – 'Pa rai o'r rhain (ymddygiadau cynaliadwy wrth siopa am fwyd), os o gwbl, wnaethoch chi ddechrau eu gwneud yn ystod y 12 mis diwethaf?'**




Disgrifiad o Ffigur 2.14: siart far bentwr yn dangos nifer yr camau gweithredu cynaliadwy a gychwynnwyd yn y 12 mis diwethaf wrth siopa am fwyd a choginio prydau ym mhob cam.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Camau 1, 2, 3 a 4 2023 i 2025. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys. Sylfaen C4 = 1001, C3 = 939, C2 = 943, C1 = 949

Newid ystadegol arwyddocaol o'r cam blaenorol wedi'i farcio mewn testun trwm gyda border.

Dyma'r newidiadau ystadegol arwyddocaol a amlygir yn y siart:

- Cynnydd o 4 pwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 0 rhwng cam 1 (67%) a cham 2 (71%), a gostyngiad o 5 pwynt canran rhwng cam 3 (72%) a cham 4 (67%)
- Cynnydd o 4 pwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 1-3 rhwng cam 3 (20%) a cham 4 (24%)
- Gostyngiad o 3 phwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 4-6 rhwng cam 1 (8%) a cham 2 (5%)

## Ymddygiadau bywyd bob dydd


2.28 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn dilyn unrhyw rai o 10 o camau gweithredu cynaliadwy yn eu bywydau bob dydd. Dyma nhw:

- Dewis busnesau cynaliadwy yn fwriadol wrth ddewis cynhyrchion neu wasanaethau
- Prynu cynhyrchion â llai o ddeunydd pacio yn fwriadol
- Siopa yn agos at adref
- Prynu eitemau ail law (e.e. oddi ar eBay, Vinted, o arwerthiannau cist car a siopau elusen)

- Rhoi neu werthu eitemau nad ydych eu heisiau mwyach (e.e. trwy eBay, Vinted, arwerthiannau cist car a siopau elusen)
- Benthyg neu rentu eitemau (gan gynnwys llyfrau llyfrgell, teclynnau, teganau ac ati)
- Addasu rhywbeth at wahanol ddefnydd yn hytrach na'i daflu
- Trwsio pethau yn hytrach na phrynu rhai newydd (e.e. wedi'u trwsio gennych chi, gan weithiwr proffesiynol neu mewn caffi atgyweirio)
- Defnyddio cynhyrchion amldro (e.e. cwpanau coffi, bagiau siopa, poteli dŵr, gwellt amldro)
- Ailgylchu eitemau nad ydych ei heisiau neu fynd â nhw i gyfleuster ailddefnyddio (e.e. trwy fynd â nhw i'ch Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref leol, neu i siop sydd â man gollwng deunydd ailgylchu)

2.29 Roedd yr ymatebion ar gyfer pob cam yn debyg yn gyffredinol, a rhwng 4 a 6 oedd y nifer fwyaf cyffredin o ymddygiadau a oedd yn cael eu dilyn ym mhob cam. (Ffigur 2.15).

**Ffigur 2.15 – Ymateb i – 'A ydych chi'n gwneud unrhyw rai o'r canlynol (ymddygiadau bywyd bob dydd)?'**





Disgrifiad o Ffigur 2.15: siart far bentwr yn dangos nifer yr ymddygiadau a ddilynwyd gan ymatebwyr yn eu bywyd bob dydd ym mhob cam.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Camau 1, 2, 3 a 4 2023 i 2025. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys. Sylfaen C4 = 1001, C3 = 939, C2 = 943, C1 = 949

2.30 O'r ymddygiadau bywyd bob dydd y dywedodd yr ymatebwyr yr oeddent yn eu dilyn, gofynnwyd iddynt ddynodi pa rai o'r rhain oedd wedi cael eu cychwyn y 12 mis diwethaf. Roedd yr ymatebion ar gyfer pob cam yn debyg yn gyffredinol, ac ni ddywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (67% i 70%) eu bod wedi mabwysiadu unrhyw fesurau yn y 12 mis diwethaf ar draws y 4 cam (Ffigur 2.16). Gellid disgwyl hyn o

gofio bod dros hanner yr ymatebwyr wedi dweud eu bod wedi mabwysiadu o leiaf 4 mesur yng nghamau cynharach yr arolwg fel y dangosir yn Ffigur 2.15.

**Ffigur 2.16 – Ymateb i – 'Pa rai o'r rhain (ymddygiadau bywyd bob dydd), os o gwbl wnaethoch chi ddechrau eu gwneud yn y 12 mis diwethaf?'**




Disgrifiad o Ffigur 2.16: siart far bentwr yn dangos nifer yr ymddygiadau bywyd bob dydd a gychwynnwyd gan ymatebwyr yn y 12 mis diwethaf ym mhob cam.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Camau 1, 2, 3 a 4 2023 i 2025. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys. Sylfaen C4 = 1001, C3 = 939, C2 = 943, C1 = 949

Newid ystadegol arwyddocaol o'r cam blaenorol wedi'i farcio mewn testun trwm gyda border.

Dyma'r newidiadau ystadegol arwyddocaol a amlygir yn y siart:

- Gostyngiad o 3 phwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 4-6 rhwng cam 1 (7%) a cham 2 (4%)


## Ymddygiadau teithio

2.31 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am 8 ymddygiad teithio y gallent eu dilyn wrth iddynt deithio o le i le. Dyma nhw:

- Cerdded/cadair olwyn pan fo'n bosibl
- Beicio pan fo'n bosibl
- Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus pan fo'n bosibl
- Ceisio osgoi defnyddio eich car/fan/beic modur
- Rhannu car (e.e. gyda chydweithwyr, neu ar y daith i'r ysgol)
- Cadw at 60mya ac is wrth yrru i arbed tanwydd
- Osgoi teithio diangen (e.e. trwy drefnu rhith-gyfarfodydd neu siopa am nwyddau groser ar-lein)
- Osgoi mynd ar awyrennau (e.e. trwy fynd ar wyliau yn y DU, defnyddio trafnidiaeth amgen.)

2.32 Roedd yr ymatebion ar gyfer pob cam yn debyg yn gyffredinol. 39% oedd cyfran yr ymatebwyr a oedd y dilyn 3 neu fwy o ymddygiadau yng ngham 1, 34% yng ngham 2, 32% yng ngham 3, a 38% yng ngham 4 (Ffigur 2.17).

**Ffigur 2.17 – Ymatebion i – 'A ydych chi'n gwneud unrhyw rai o'r canlynol wrth deithio o le i le?'**




Disgrifiad o Ffigur 2.17: siart far bentwr yn dangos nifer yr ymddygiadau teithio a ddilynwyd gan ymatebwyr ym mhob cam.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Camau 1, 2, 3 a 4 2023 i 2025. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys. Sylfaen C4 = 1001, C3 = 939, C2 = 943, C1 = 949


Newid ystadegol arwyddocaol o'r cam blaenorol wedi'i farcio mewn testun trwm gyda border.

Dyma'r newidiadau ystadegol arwyddocaol a amlygir yn y siart:

- Cynnydd o 5 pwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 1-2 rhwng cam 1 (41%) a cham 2 (46%), a gostyngiad o 6 phwynt canran rhwng cam 3 (47%) a cham 4 (41%)
- Cynnydd o 6 phwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 3-4 rhwng cam 3 (22%) a cham 4 (28%)

2.33 O'r ymddygiadau teithio y gwnaethon nhw ddweud yr oeddent yn eu dilyn, gofynnwyd i'r ymatebwyr ddynodi pa rai o'r rhain a ddechreuwyd yn y 12 mis diwethaf. Roedd yr ymatebion ar gyfer pob cam yn debyg yn gyffredinol, a dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (70% i 76%) nad oeddent wedi mabwysiadu unrhyw fesurau yn y 12 mis diwethaf ar draws y 4 cam (Ffigur 2.18).

**Ffigur 2.18 – Ymateb i – 'Pa rai o'r rhain (ymddygiadau teithio), os o gwbl, wnaethoch chi ddechrau eu gwneud yn y 12 mis diwethaf?**




Disgrifiad o Ffigur 2.18: siart far bentwr yn dangos nifer yr ymddygiadau teithio a gychwynnwyd gan ymatebwyr yn y 12 mis diwethaf ym mhob cam.

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Camau 1, 2, 3 a 4 2023 i 2025. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys. Sylfaen C4 = 1001, C3 = 939, C2 = 943, C1 = 949

Newid ystadegol arwyddocaol o'r cam blaenorol wedi'i farcio mewn testun trwm gyda border.

Dyma'r newidiadau ystadegol arwyddocaol a amlygir yn y siart:

- Cynnydd o 6 phwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 0 rhwng cam 1 (70%) a cham 2 (76%), a gostyngiad o 5 pwynt canran rhwng cam 3 (75%) a cham 4 (71%)
- Gostyngiad o 4 pwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 1-2 rhwng cam 1 (25%) a cham 2 (21%).
- Gostyngiad o 2 bwynt canran i'r ymatebwyr a atebodd 3-4 rhwng cam 1 (5%) a cham 2 (3%) a chynnydd o 4 pwynt canran rhwng cam 3 (3%) a cham 4 (7%)

## 3. Casgliad

3.1 Gwnaed cymhariaeth rhwng y pedwar cam ar gyfer ymatebion i ganfyddiadau ac agweddau ac camau gweithredu cynaliadwy.

3.2 Ym mhob cam, roedd mwyafrif yr ymatebwyr o’r farn bod newid hinsawdd yn cael ei greu yn bennaf neu’n gyfan gwbl gan weithgareddau dynol. Roedd y gyfran a ddywedodd hyn ar ei hisaf yng ngham 4, sef 56%, o’i gymharu â 64% yng ngham 3, 62% yng ngham 2, a 61% yng ngham 1. Roedd gostyngiad ystadegol arwyddocaol i nifer yr ymatebwyr a ddywedodd bod newid hinsawdd yn cael ei achosi yn bennaf neu’n gyfan gwbl gan weithgareddau dynol rhwng cam 3 a cham 4 (8 pwynt canran).

3.3 Gostyngodd nifer yr ymatebwyr a ddywedodd bod newid hinsawdd yn broblem eithriadol o ddifrifol ar hyn o bryd rhwng cam 1 (43%) a cham 4 (32%) â gostyngiad ystadegol arwyddocaol rhwng camau 3 a 4 (4 pwynt canran).

3.4 Bu gostyngiad i gamau arbed ynni a gymerir gartref, â llai o ymatebwyr yn mabwysiadu mesurau neu ymddygiadau newydd dros amser. Roedd nifer yr ymatebwyr a oedd yn cymryd 10 neu fwy o gamau yn 41% yng ngham 1, 33% yng ngham 2, 31% yng ngham 3 a 26% yng ngham 4.

3.5 Bu cynnydd ystadegol arwyddocaol i nifer yr ymatebwyr a ddywedodd bod ganddynt ddim o’r 8 o fesurau effeithlonrwydd ynni i gadw eu cartrefi yn gynnes rhwng camau 3 a 4 (9 pwynt canran).

3.6 Mae tua hanner yr ymatebwyr ym mhob cam wedi gwneud addasiadau i’w deiet (e.e., lleihau cig neu gynyddu llysiau), â mân amrywiadau i newidiadau a wnaed yn ystod y deuddeng mis diwethaf a wnaed ar draws y camau.

3.7 Prin oedd yr amrywiad o ran arferion cynaliadwy ar gyfer siopa, coginio neu fywyd bob dydd ar draws y camau, â’r mwyafrif o ymatebwyr ddim yn mabwysiadu ymddygiadau newydd yn ystod y deuddeng mis diwethaf.

3.8 Pan holwyd am 8 o ymddygiadau teithio, roedd gostyngiadau ystadegol arwyddocaol i nifer yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn dilyn 1-2 o’r ymddygiadau rhwng cam 3 a cham 4 (6 pwynt canran) a chynnydd ystadegol arwyddocaol i nifer yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn dilyn 3-4 o’r ymddygiadau rhwng cam 3 a cham 4 (6 pwynt canran). Roedd cynnydd ystadegol arwyddocaol hefyd i nifer yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn dilyn 3-4 ymddygiad newydd (o fewn y 12 mis diwethaf) rhwng cam 3 a cham 4 (4 pwynt canran).

### Myfyrdodau ac ystyriaeth ar gyfer dehongli'r allbynnau

3.9 Gallai sawl ystyriaeth fethodolegol a dadansoddol effeithio ar y dehongliad o'r canfyddiadau.

3.10 Er bod y sampl yn gyffredinol gynrychiadol o'r cyhoedd yng Nghymru yn seiliedig ar ddemograffeg sampl allweddol, dangosodd yr arolwg fân wahaniaethau â data cyfrifiad ar gyfer lleoliad, galwedigaeth, deiliadaeth, a math o eiddo. Gallai hyn fod wedi deillio, yn rhannol, o duedd hunan-ddethol. Gallai'r anghydbwysedd hwn yng nghyfansoddiad y sampl arwain at ganfyddiadau â thuedd, gan y gallai safbwyntiau ac ymddygiadau grwpiau sydd wedi'u gorgynrychioli ddylanwadu'n anghymesur ar y canlyniadau, gan fethu ag adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth yn briodol. Ni phwysolwyd canlyniadau'r arolwg i adlewyrchu'r boblogaeth ehangach.

3.11 Hefyd, ceir y potensial o duedd yn atebion yr ymatebwyr. Gallai'r rhai sy'n cymryd rhan, yn ymwybodol neu'n anymwybodol, newid eu hymatebion oherwydd rhagfarnau neu ragdybiaethau cynhenid. Gallai hyn gymylu gwir natur agweddau ac ymddygiadau'r cyhoedd tuag at newid hinsawdd.

3.12 Yn olaf, gallai canfyddiadau'r arolwg fod wedi cael eu dylanwadu gan amgylchedd y cyfryngau. Gallai eitemau a oedd yn amlwg yn y cyfryngau ar adeg yr arolwg fod wedi effeithio ar gryfder y teimladau a fynegwyd gan ymatebwyr, gan chwyddo agweddau neu bryderon penodol o bosibl, mewn ffyrdd nad ydynt yn cynrychioli safbwyntiau hirdymor yn gywir.